OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 378 (Cy. 85)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cylchfan Cross Hands i Fan i'r De-ddwyrain o Gylchfan Pensarn) a Chefnffordd yr A40 (Cylchfan Pensarn i Gylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *6 Mawrth 2020* |
| *Yn dod i rym* | *14 Mawrth 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Gefnffyrdd yr A48 a'r A40, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cylchfan Cross Hands i Fan i'r De-ddwyrain o Gylchfan Pensarn) a Chefnffordd yr A40 (Cylchfan Pensarn i Gylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 14 Mawrth 2020.

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 14 Mawrth 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw'r darnau hynny o'r cefnffyrdd yr A48 a A40;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

## Cyfyngiadau a Gwaharddiad

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn.

---

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

**Atal Dros Dro**

**7.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3, 4 a 5 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**8.**—(1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 6 Mawrth 2020

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**

**TERFYNAU CYFLYMDER 50 MYA, 40 MYA A 10 MYA DROS DRO A GWAHARDDIAD DROS DRO AR ODDIWEDDYD**

**CEFNFFORDD YR A40**

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Pont Lesneven hyd at bwynt 116 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Sanclêr.

ii) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 116 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Sanclêr hyd at bwynt 30 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Pont Lesneven.

iii) Y darn hwnnw o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 75 o fetrau o'i chyffordd â'r B4312, Heol Llansteffan, hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd.

**CEFNFFORDD YR A48**

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 170 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Cross Hands hyd at bwynt 358 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn.

ii) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 50 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn hyd at bwynt 170 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Cross Hands.

## ATODLEN 2

## TERFYN CYFLYMDER 10 MYA DROS DRO A GWAHARDDIAD DROS DRO AR ODDIWEDDYD

**CEFNFFORDD YR A40**

i) Y darn hwnnw o gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn hyd at ei chyffordd â Chylchfan Pont Lesneven.

ii) Y darnau cyfan o gerbytffyrdd cylchredol Cylchfannau Pont Lesneven a Phensarn.

**CEFNFFORDD YR A48**

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn hyd at bwynt 50 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn.

ii) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 358 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn hyd at ei chyffordd â Chylchfan Pensarn.